# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15434

# 310 (v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

Dechreuodd yr eitem am 14.28

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 2 a 4 i 5. Ni ofynnwyd cwestiwn 3. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.56

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: COP30 ac Wythnos Hinsawdd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.18

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol ar Gam-drin Pobl Hŷn

Dechreuodd yr eitem am 15.57

## 6 Dadl: Cofio

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**NDM9036** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd parhaus cyfnod y Cofio i deuluoedd a chymunedau yng Nghymru, ac eleni rydym yn coffáu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE) a Diwrnod Buddugoliaeth dros Japan (VJ).

2. Yn talu teyrnged i wasanaeth ac aberth unigolion o bob cwr o Gymru sy'n gwasanaethu nawr neu sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog.

3. Yn cydnabod gwaith diflino sefydliadau, unigolion a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cymuned ein lluoedd arfog a chyn-filwyr ledled Cymru.

4. Yn cefnogi'r angen i ymdrechu i gael datrysiad heddychlon i bob gwrthdaro a rhoi terfyn ar ryfel, gan nodi'r ansicrwydd yn y byd sydd ohoni.

5. Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys sifiliaid a gafodd eu hanafu a'u lladd.

**Cyd-gyflwynwyr**

Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 7-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

**Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 7-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## 7 Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM9038** Huw Irranca-Davies AS (Ogwr)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 2 Mehefin 2025; gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gerbron y Senedd ar 24 Hydref 2025.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 1 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM9039** Huw Irranca-Davies AS (Ogwr)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 1 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, canwyd y gloch am 18.31 a gohiriwyd y cyfarfod tan y cyfnod pleidleisio.**

**Dechreuodd yr eitem am 18.36**

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.38

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2025**